Cofnodion Cyfarfod Arferol o **GYNGOR TREF RHUTHUN** gynhaliwyd yn Swyddfeydd y Cyngor, Ffordd Wynnstay, Rhuthun ar nos Lun, 28 Ebrill 2014 am 7:00 p.m.

PRESENNOL: Cyng. Rosie Hughes-Moseley (**Maer - Cadeirydd**)
Cyngr. Stephen Beach, James Bryan, Bob Costain, Elisabeth Culshaw, June Derry, Sioned Foulkes, Ken Hawkins, Menna Jones, Robert Owen Ellis, Anne Roberts, Katy Morgan Williams, Geraint Woolford ac Emrys Wynne; hefyd Bobby Feeley, Cynghorydd Sir.

231. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth Cyng. Simeon Jones.

232. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Datganodd Cyng. Ken Hawkins, fel Aelod / Aelod o'r Pwyllgor Gweithredol ddiddordeb yn y ddwy eitem ganlynol ac ni chymerodd ran yn y trafodaethau na'r penderfyniad ddilynodd.
Cof. Rhif 239(c) – Cymdeithas Efeillio Rhuthun
Cof. Rhif 239 (ch) – Cymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch
Datganodd Cyng. Menna Jones, fel Aelod o'r Pwyllgor, ddiddordeb yn yr eitem ganlynol ac ni chymerodd ran yn y trafodaethau na'r penderfyniad ddilynodd.
Cof. Rhif 239(c) – Cymdeithas Efeillio Rhuthun
Datganodd Cyng. Anne Roberts, fel Aelod o'r Pwyllgor, ddiddordeb yn yr eitem ganlynol ac ni chymerodd ran yn y trafodaethau na'r penderfyniad ddilynodd.
Cof. Rhif 239 (ch) – Cymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch
Datganodd Cyng. Emrys Wynne, fel Aelod a Chadeirydd o'r Pwyllgor, ddiddordeb yn yr eitem ganlynol ac ni chymerodd ran yn y trafodaethau na'r penderfyniad ddilynodd.
Cof. Rhif 239(c) – Cymdeithas Efeillio Rhuthun

233. ADRODDIAD Y MAER

Dywedodd y Maer ei bod wedi mynychu'r canlynol ers y cyfarfod diwethaf:
Dawns Elusennol yn Ninbych
Tim y Dref

234. ADRODDIADAU AELODAU

Cyng. Stephen Beach	Cymdeithas Cynghorau Trefi a Chymunedau Mwyaf Gogledd Cymru, Ymgyrch Glanhau'r Dref, Gwobrwyon Menter Ieuenctid, Ysgol Rydal.
Cyng. James Bryan	Gŵyl Rhuthun x 2, Ymgyrch Glanhau'r Dref, Pwyllgor Gweithredol Canolfan Awelon.
Cyng. June Derry	Hyfforddiant Cynllunio yn Ninbych.
Cyng. Sioned Foulkes	Agor Cut Bugail ar Foel Famau.
Cyng. Ken Hawkins	Cloc Twr Eglwys Sant Pedr, Agor Cut Bugail ar Foel Famau
Cyng. Menna Jones	Llys Marchan, Gofal yr Henoed, Banc Bwyd, Cist Gymunedol Clwyd, Ysgol Borthyn.
Cyng. Robert Owen Ellis	Ysgol Pen Barras, Cydlynydd Tim y Dref, Banc Bwyd, Ymgyrch Glanhau'r Dref.
Cyng. Anne Roberts	Gwobrwyo Lleng Brydeinig, Gwobrwyon Menter Ieuenctid yn Y Rhyl, Hyfforddiant Cynllunio yn Ninbych.
Cyng. Geraint Woolford	Tim y Dref, Agor Cut Bugail ym Moel Famau.
Cyng. Emrys Wynne	Cymdeithas Cynghorau Trefi a Chymunedau Mwyaf Gogledd Cymru.

235. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

PENDERFYNWYD: *derbyn a mabwysiadu fel cywir cofnodion y Cyfarfod Arferol gynhaliwyd ar 24 Mawrth 2014.*

236. MATERION YN CODI
Cof. Rhif 213(c) – CYMDEITHAS Y SEFYDLIAD, CASTELL RHUTHUN
Darllenodd Y Maer e-bost a derbyniwyd oddi wrth Gastell Rhuthun mewn ymateb.

237. PWYLLGOR AMWYNDERAU
Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Ebrill 2014.
***PENDERFYNWYD**: derbyn y cofnodion.*

238. PWYLLGOR CYNLLUNIO
Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Ebrill 2014.
***PENDERFYNWYD**: derbyn y cofnodion.*

239. CEISIADAU AM GYMORTH ARIANNOL
(a) DRYSAU AGORED SIR DDINBYCH
Cyflwynodd Clerc y Dref infois gan Gadwyn Clwyd am £1,000.00 sef cyfraniad ariannol tuag at Ddrysau Agored eleni - mae £1,000.00 yn y gyllideb ar gyfer y mudiad yma.
***PENDERFYNWYD**: cadarnhau cyfraniad o £1,000.00 i'w ddefnyddio ar gyfer tref Rhuthun.*
(b) SIAMBR FASNACH RHUTHUN
Cyflwynodd Clerc y Dref lythyr gan Gadeirydd y Mudiad uchod yn gofyn am gyfraniad ariannol o £2,600.00 tuag at siop Canolfan Dwristiaeth Rhuthun ar Sgwâr Sant Pedr.
***PENDERFYNWYD**: gofyn i Gadeirydd yr Is-bwyllgor Dwristiaeth ddod i gyfarfod o'r Cyngor Tref i drafod y mater ymhellach.*
(c) CYMDEITHAS EFEILLIO RHUTHUN
Cyflwynodd Clerc y Dref lythyr gan y Mudiad uchod yn gofyn am gyfraniad blynyddol y Cyngor Tref o £500.00 tuag at gostau'r Gymdeithas Efeillio – mae £500.00 yn y gyllideb ar gyfer y Mudiad yma.
***PENDERFYNWYD**: cadarnhau'r cyfraniad blynyddol o £500.00.*
(ch) CYMDEITHAS DDINESIG RHUTHUN A'R CYLCH
Cyflwynodd Clerc y Dref lythyr gan y Mudiad uchod yn gofyn am gyfraniad ariannol tuag at blac addas i goffau Edward Pugh. Bydd y Gymdeithas yn cyfrannu £125.00 tuag at y gost.
***PENDERFYNWYD**: bod y plac yn cael ei bwrcasu ar ran y Cynfor Tref.*
(d) CLWB ROTARY RHUTHUN
Cyflwynodd Clerc y Dref lythyr (ynghyd a Thaflen Ariannol) gan y Mudiad uchod yn gofyn am Gyfraniad Ariannol tuag at y Rasys Mulod a Diwrnod Hwyl eleni i'w gynnal ar ddydd Sadwrn, 30 Awst 2014 yng Nghae Ddôl.
***PENDERFYNWYD**: gwneud cyfraniad o £500.00 tuag at y digwyddiad yma.*

240. DRYSAU AGORED SIR DDINBYCH – PARCIO RHAD AC AM DDIM
Gofynnwyd i'r aelodau ystyried Sadwrn, 27ain Medi 2014 fel 'Diwrnod Parcio Rhad ac am Ddim'.
***PENDERFYNWYD**: cynnwys Sadwrn, 27ain Medi 2014 fel un o 'Ddiwrnodau Parcio Rhad ac am Ddim'.*

241. CYMORTH LLIFOGYDD RHUTHUN CYFYNGEDIG
Gofynnwyd i'r aelodau gadarnhau cau'r Cwmni uchod ac i anfon cais i Dŷ'r Cwmnïoedd gyda ffi o £10.00.
***PENDERFYNWYD**: cadarnhau cau'r Cwmni Cyfyngedig uchod.*

242. GWOBRWYON DINESYDD DA
Derbyniodd yr aelodau ragor o fanylion gan gynnwys enwebiadau ar gyfer y Gwobrwyon uchod gaiff eu cyflwyno yn y Cyfarfod Blynyddol..

243. CYNLLUNIAU'R DREF

Cyflwynodd Clerc y Dref lythyr gan Gyngor Sir Ddinbych parthed Cynlluniau'r Dref.
***PENDERFYNWYD**: gofyn i Huw Hilditch-Roberts, Cynghorydd Sir i ddod i gyfarfod i roddi rhagor o fanylion.*

244. ADRODDIAD YR HEDDLU – SIR DDINBYCH

Cyflwynodd Clerc y Dref lythyr oddi wrth Heddlu Gogledd Cymru parthed plismona yn Sir Ddinbych.
***PENDERFYNWYD**: derbyn y llythyr.*

245. STRYD YN RHUTHUN

Cyflwynodd Clerc y Dref e-bost oddi wrth Mr Estyn F. Hughes parthed gwm cnoi ar stryd yn Rhuthun.
***PENDERFYNWYD**: gofyn i'r Cyngor Sir roddi arwyddion Gwm Cnoi ar Finiau Ysbwriel.*

246. GWASTRAFF BAW CWN – ARWYDDION TRIONGL

Cyflwynodd Clerc y Dref e-bost oddi wrth Gyngor Sir Ddinbych parthed Arwyddion Triongl.
***PENDERFYNWYD**: derbyn y llythyr – nid oes angen unrhyw ymateb.*

247. GWYL RHUTHUN 29 MEHEFIN – 5 GORFFENNAF 2014

Derbyniodd yr aelodau fanylion am ddigwyddiadau yn ystod wythnos Gŵyl Rhuthun.

248. CYFRIFON AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2014

Cyflwynodd Clerc y Dref y Cyfrifon Blynyddol am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2014.
***PENDERFYNWYD**: derbyn a chymeradwyo'r Cyfrifon Blynyddol.*

249. DATGANIAD ARIANNOL

Cyflwynodd Clerc y Dref, fel Swyddog Ariannol Cyfrifol, ei Ddatganiad Ariannol am y cyfnod yn diweddu 31ain Mawrth 2014
***PENDERFYNWYD**: derbyn a mabwysiadu'r Datganiad Ariannol.*

250. CYFRIFON I'W TALU

A.B.	Canda Copying Ltd	Hurio ffotogopiwr		129.17
543	Sandra Williams	Cyfieithu		90.00
544	Cyllid y Wlad	Treth ac Yswiriant Gwladol		172.40
545	Capel Pendref	Llifoleuadau 2013 / 4		47.72
546	Eglwys Sant Pedr	Canu'r Hwyrgloch		156.00
547	Dafydd Williams	Norton gwrth-firws 2013 a 2014		59.98
548	Zurich Municipal	Premiwm Yswiriant (Llwybr Celf)		610.46
549	Cymdeithas Cynghorau Trefi a Chymunedau Mwyaf Gogledd Cymru	Cinio x 2 – Cyfarfod		29.00
550	Cyngor Tref Dinbych	Tocyn Dawns Elusennol x 1		30.00
551	Zurich Management Services	Adnewyddu Aelodaeth Gwasanaeth Cynghori Llywodraeth Leol	*	114.00
552	Glasdon U.K. Limited	Sedd Draddodiadol Larbreck	*	660.93
553	Canda Copying Ltd	Copïau ychwanegol - du a gwyn	*	30.07
554	Canda Copying Ltd	Copïau ychwanegol - lliw	*	53.86
555	Scottish Power	Goleuadau Nadolig 2013 / 14	*	103.07
556	Blachere Illuminations	Hurio Goleuadau Nadolig - Blwyddyn 1af	*	5,768.75
557	Cadwyn Clwyd	Drysau Agored Sir Ddinbych - cyfraniad		1,000.00
558	Cymdeithas Efeillio Rhuthun	Cyfraniad		500.00

559	Ty'r Cwmnïoedd	Ffi parthed Cau Cwmni	10.00
560	Dafydd Williams	Cyfog	56.28
561	Eisteddfod Llangollen	Cyfraniad - *arwyddwyd y siec* ***Rhagfyr 2013***	100.00
562	***Siec wedi ei chanslo***		-
563	Clwb Rotary Rhuthun	Rasys Mulod a Diwrnod Hwyl - Cyfraniad	500.00

(Mae'r eitemau a nodir gyda * yn cynnwys T.A.W. y gellir ei adennill o £1,146.03)

RHAN DAU

251. CYFLOG CLERC Y DREF

Rhoddwyd manylion am gyflog Clerc y Dref

PENDERFYNWYD*: derbyn y manylion.*

252. LWFANS Y MAER

Derbyniodd yr aelodau fanylion oddi wrth Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol a gofynnwyd iddynt drafod Lwfans y Maer o hyn ymlaen.

PENDERFYNWYD*: derbyn y manylion.*

253. DYDDIADAU'R CYFARFODYDD NESAF

PENDERFYNWYD*: cadarnhau dyddiadau cyfarfodydd nesaf o'r Cyngor Tref fel:*

Cyfarfod Blynyddol – Nos Lun, 19 Mai 2014 yn Swyddfeydd y Cyngor am 7:00 p.m.

Cyfarfod Arferol – Nos Fawrth, 27 Mai 2014 yn Swyddfeydd y Cyngor am 7:00 p.m.